# Swydd Ddisgrifiad

Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

| Ein Dyfodol. Rhagoriaeth. Cliciwch yma. | Ein Dyfodol. Cynhwysiad. Cliciwch yma. | Ein Dyfodol. Cydweithio. Cliciwch yma. | Ein Dyfodol. Trawsnewidiad. Cliciwch yma. | Ein Dyfodol. Cynaliadwyedd. Cliciwch yma. |
|---|---|---|---|---|

| | |
|---|---|
| **Cyfadran/Adran** | **Cyfadran y Celfyddydau, Cyfrifiadura a Pheirianneg** |
| **Adran** | Cyfrifiadura |
| **Teitl y Swydd** | Gwyddonydd Data (Cyswllt Partneriaeth SMART) |
| **Yn atebol i** | Uwch Ddarlithydd Cyfrifiadura a Goruchwyliwr Cwmni yn y Cwmni Partner |
| **Yn gyfrifol am** | Amherthnasol |
| **Gradd** | £35,000 Cyflog Tymor Penodol, Swydd Amser Llawn am Un Flwyddyn. |

## Prif Atebolrwydd

Byddwch yn gweithio'n rhan o dîm Deallusrwydd Busnes Levercliff gan weithio'n agos gyda'u Harbenigwr Deallusrwydd Busnes, wnaeth ddatblygu'r adnodd yn y lle cyntaf.

Bydd angen i chi ddatblygu dealltwriaeth dda o Power BI a'r ffordd y mae Unlock yn defnyddio'r adnodd hwn. Datblygu dealltwriaeth dda o anghenion cleientiaid Levercliff a sut maent yn defnyddio'r adnodd.

Yna datblygu eu hadnodd Power BI drwy integreiddio Copilot, gan alluogi cleientiaid i ryngweithio'n fwy greddfol gyda'u data, cael gwell dealltwriaeth, a defnyddioldeb ML/AI er mwyn cynhyrchu rhagfynegiadau ystyrlon sy'n cael eu gyrru gan ddata.

Bydd yr integreiddiad hwn yn ceisio cyfuno ffynonellau data sy'n bodoli eisoes gyda setiau data ychwanegol, gan gynhyrchu gwybodaeth weithredol er mwyn cefnogi gwneud penderfyniadau tactegol a strategol.

Mae Levercliff hefyd yn archwilio ffynonellau eraill, gan gynnwys defnyddio data gweithrediadau/cynhyrchu er mwyn gwella eu ffordd o weithio mewnol ac i gynyddu eu cefnogaeth i'w cleientiaid ymhellach, a dod o hyd i ffyrdd newydd o ddarparu datrysiadau i broblemau sy'n bodoli eisoes gan ddefnyddio datblygiadau technolegol newydd.

Mae cyfathrebu ar draws y tîm yn hanfodol er mwyn cyflawni'r nodau hyn, er mwyn deall y deilliannau gofynnol ac i adnabod meysydd lle gellir cymhwyso technoleg.

## Tasgau Allweddol

**CYDLYNU PROSIECT**

Cydlynu a rheoli'r cynllun gwaith Partneriaeth SMART mewn cydweithrediad â goruchwylwyr cwmni ac academaidd i sicrhau bod holl gerrig milltir, cyflawniadau a gofynion adrodd y prosiect yn digwydd yn brydlon. Cynnal cofnodion manwl am weithgarwch y prosiect, gwariant ariannol a risgiau, i gefnogi adrodd i gyllidwyr yn brydlon ac yn eglur.

**MODELU DATA, DADANSODDI A DATBLYGU SYSTEMAU BI**

Archwilio a gwerthuso dulliau casglu data a ddefnyddir gan y Sefydliad i adnabod cyfleoedd i wella a chyd-fynd â chanlyniadau strategol.

Ymchwilio ac integreiddio setiau data mewnol ac allanol yn sail i ddatblygu'r adnodd BI, gan gynnwys ychwanegu'r estyniad Copilot.

Datblygu gofynion y defnyddiwr a gofynion technegol ar gyfer y system yn seiliedig ar adborth gan staff a rhanddeiliaid a blaenoriaethau strategol.

Cofnodi prosesau technegol ac adeiladwaith system i sicrhau cynaliadwyedd y tu hwnt i gylch bywyd y prosiect.

**DATBLYGU AC ADDASU DYSGU PEIRIANT**

Datblygu dulliau ML ar gyfer tasgau rhagweld a chreu rhagolygon o ddata presennol ac integreiddio'r modelau yma i mewn i'r adnodd.

Yn y lle cyntaf bydd modelau'n cael eu cyflunio i gefnogi rhagfynegiadau hyrwyddo, gan ddechrau gyda phris syml o'i gymharu gyda'r model ar alw sy'n cymryd i ystyriaeth elfennau tymhorol, gan alluogi adolygiadau hyrwyddo mwy cadarn gan Levercliff ar gyfer eu cleientiaid.  Bydd y modelau cychwynnol yma wedyn yn cael eu gwella ymhellach i gynnwys ffactorau megis prisio'r cystadleuydd a thraweffeithiau categori mawr eraill.

**HYFFORDDIANT AC YMGYSYLLTIAD RHANDDEILIAID**

Hwyluso cyfarfodydd a gweithdai gyda chleientiaid, casglu adborth a sicrhau bod y system yn bodloni anghenion y byd go iawn.

Darparu hyfforddiant a chefnogaeth i staff i ddefnyddio'r system ddiweddaraf er mwyn adeiladu galluoedd data mewnol.

Cynorthwyo wrth baratoi cyflwyniadau ac adroddiadau i gyllidwyr a rhanddeiliaid allanol i gyfathrebu canlyniadau prosiect.

**CYFNEWID A LLEDAENU GWYBODAETH**

Cydweithredu â goruchwylwyr academaidd i ledaenu canlyniadau prosiect drwy adroddiadau mewnol, astudiaethau achosion academaidd a briffiau allanol i lywio ymarfer yn y dyfodol.

## Nodweddion Arbennig

- Bod wedi'ch lleoli yn bennaf yn adeiladau Levercliff gyda theithio o bryd i'w gilydd i Brifysgol Wrecsam er mwyn cynnal cydweithrediad gyda goruchwylwyr academaidd.
- Rôl llawn amser 12 mis, a ariennir gan Bartneriaeth SMART.
- Defnyddio cyllideb datblygiad proffesiynol ymroddedig gwerth £2,000 i uwchsgilio mewn meysydd fel Power BI, Deallusrwydd Artiffisial a Dysgu Peiriant a Dadansoddi Data.

.

## Dyletswyddau Cyffredinol

Byddwch yn sicrhau bod systemau a gweithdrefnau rheoli priodol ar waith er mwyn bodloni'ch dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau iechyd a diogelwch a geir ym mholisi iechyd a diogelwch y Brifysgol. Yn benodol, byddwch yn sicrhau bod asesiadau risg priodol yn cael eu cynnal mewn perthynas â pheryglon sylweddol ac yr ymgymerir ag arolygon diogelwch o leiaf unwaith y flwyddyn ym mhob gweithle dan eich rheolaeth chi.

Cyfrifoldeb y gweithwyr yw rhoi Polisi Cyfle Cyfartal y Brifysgol ar waith o fewn eu maes cyfrifoldeb eu hunain ac yn eu hymddygiad cyffredinol.

Mae gan yr holl staff gyfrifoldeb am hyrwyddo gofal cwsmer o safon yn eu meysydd cyfrifoldeb eu hunain.

Rhaid i staff fod yn ymwybodol o ymrwymiad y Brifysgol i Gynaliadwyedd.

Rhaid i bob aelod o staff hyrwyddo ymddygiad iach ac iechyd meddwl a llesiant cadarnhaol

Disgwylir i ddeiliaid swydd gydweithredu â'r broses Adolygu Datblygiad Proffesiynol, gan gymryd rhan wrth osod amcanion er mwyn helpu i fonitro perfformiad a datblygiad yr unigolyn.

Byddwch yn asesu anghenion hyfforddiant a datblygiad pob aelod o staff dan eich rheolaeth i sicrhau eu bod yn cael eu cynorthwyo'n ddigonol mewn perthynas â'u cyfrifoldebau yn y gwaith.

Dyletswyddau perthnasol eraill sy'n gymesur â gradd y swydd, a all gael eu neilltuo gan y Rheolwr, mewn cytundeb â deiliad y swydd. Ni ddylid gwrthod cytundeb o'r fath yn afresymol.

Mae'r cyfrifoldebau allweddol sydd wedi'u cynnwys yn y swydd ddisgrifiad hon yn rhai nodweddiadol; nid ydynt yn gynhwysfawr. Gellir addasu dyletswyddau a chyfrifoldebau mewn trafodaeth â deiliad y swydd.

Disgwylir i'r holl ddeiliaid swydd yn y Gyfarwyddiaeth allu cynnig cymorth ar draws pob maes, y tu hwnt i'w tîm uniongyrchol, ar gais y Cyfarwyddwr ac yn gymesur â'u sgiliau, eu gwybodaeth a'u profiad.

## Adolygu

Mae hwn yn ddisgrifiad o'r swydd adeg ei chyhoeddi. Mae'n arfer gan y Brifysgol o bryd i'w gilydd i adolygu a diweddaru disgrifiadau swydd er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu natur gyfredol y swydd a gofynion y Brifysgol yn gywir, ac i ymgorffori newidiadau rhesymol pan fo angen, mewn ymgynghoriad â deiliad y swydd.

# Manyleb Person

Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

**Teitl y Swydd:** Gwyddonydd Data (Cyswllt Partneriaeth SMART)

Er mwyn cael eich rhoi ar y rhestr fer, mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn diwallu pob un o'r meini prawf hanfodol a hynny o'r meini prawf dymunol ag sy'n bosibl. Pan fydd gennym nifer fawr o geisiadau sy'n diwallu'r holl feini prawf hanfodol, byddwn wedyn yn llunio'r rhestr fer gan ddefnyddio'r meini prawf dymunol.

## Meini Prawf Dethol

| | Priodoleddau | Eitem | Meini Prawf Perthnasol | Dull Adnabod | Pwysigrwydd |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Sgiliau a Galluoedd | 1.1 | Sgiliau gwyddor/modelu/dadansoddi data a sgiliau datblygu meddalwedd (Python, neu gyfatebol) | Ff/C | H |
| | | 1.2 | Sgiliau dadansoddi ystadegol uwch | Ff/C | H |
| | | 1.3 | Sgiliau cyfathrebu rhagorol | Ff/C | H |
| | | 1.4 | Hynod drefnus gyda lefelau uchel o broffesiynoldeb ac ymrwymiad | Ff/C | H |
| | | 1.5 | Sgiliau rheoli prosiect TG | Ff/C | H |
| | | 1.6 | Sgiliau creu a chyflwyno cyflwyniadau | Ff/C | H |
| 2 | Gwybodaeth Gyffredinol ac Arbenigol | 2.1 | Deall ac Ymwybyddiaeth o offer rheoli cronfa ddata | Ff/C | H |
| | | 2.2 | Profiad o gynhyrchu llinellau cyflenwi effeithlon er mwyn echdynnu a glanhau setiau data cymhleth ar gyfer eu dadansoddi'n effeithiol | Ff/C | H |
| | | 2.3 | Profiad o gymhwyso dulliau mathemategol ac ystadegol priodol er mwyn sicrhau dealltwriaeth o ddata. | Ff/C | H |
| | | 2.4 | Y gallu i ddethol a defnyddio technegau dadansoddi data addas er mwyn cyflwyno canfyddiadau perthnasol yn eglur i fod yn sail i wneud penderfyniadau a datrys problemau. | Ff/C | H |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 2.5 | Y gallu i ddatblygu a chymhwyso technegau ML/AI perthnasol er mwyn ehangu rhagfynegi, dadansoddiad a delweddu. | Ff/C | H |
| 3 | Addysg a Hyfforddiant | 3.1 | Gradd Baglor mewn Gwyddor Data, Cyfrifiadureg neu faes perthnasol | Ff/T | H |
| | | 3.2 | Gradd Meistr neu hyfforddiant ychwanegol mewn gwyddor data, Deallusrwydd Artiffisial/Dysgu Peiriant | Ff/T | D |
| | | 3.3 | Hyfforddiant ychwanegol mewn Adnoddau Deallusrwydd Busnes | Ff/C/T | D |
| 4 | Profiad Perthnasol | 4.1 | Profiad o dechnoleg BI a'r defnydd ohono | Ff/C | D |
| | | 4.2 | Profiad o gysoni, rheoli a delweddu setiau data mawr | Ff/C | D |
| | | 4.3 | Ymwybyddiaeth/dealltwriaeth o ddulliau ML/AI ar gyfer tasgau rhagfynegi/creu rhagolygon | Ff/C | D |
| | | 4.4 | Profiad o ddatblygu meddalwedd ar gyfer tasgau dadansoddi data. | Ff/C | D |
| 5 | Gofynion Arbennig | 5.1 | Yn gallu cyfathrebu yn Gymraeg | Ff/C | D |
| **Dyddiad Adolygu** | | | 23 Ebrill 2026 | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Allwedd** | **Dull Adnabod** | **Ff** | Ffurflen Gais |
| | | **C** | Cyfweliad |
| | | **P** | Prawf |
| | | **T** | Copi o Dystysgrifau |
| | | **Rh** | Rhoi Cyflwyniad |
| | | **G** | Asesiad Grŵp |
| | **Pwysigrwydd** | **H** | Hanfodol |
| | | **D** | Dymunol |

Ein Dyfodol.
Rhagoriaeth.
Cliciwch yma.

Ein Dyfodol.
Cynhwysiad.
Cliciwch yma.

Ein Dyfodol.
Cydweithio.
Cliciwch yma.

Ein Dyfodol.
Trawsnewidiad.
Cliciwch yma.

Ein Dyfodol.
Cynaliadwyedd.
Cliciwch yma.